Jane Hutt AC/AM
Y Gweinidog dros y Gyllideb a Rheoli Busnes
Minister for Budget and Business Management

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AS
Swyddog Llywyddu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

26 Mehefin 2007

RHEOLIADAU CYNHYRCHION BUCHOL (CYFYNGU AR EU RHOI AR Y FARCHNAD) (CYMRU) (RHIF 2) (DIWYGIAD) 2007

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bod angen torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn gweithredu'r Rheoliadau Cynhyrchion Buchol (Cyfyngu ar eu rhoi ar y Farchnad) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygiad) 2007 yng Nghymru yn unol â gweddill y DU. Gwnaethpwyd y rheoliadau hyn a'u gosod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2007 a byddant yn dod i rym ar 27 Mehefin 2007.

Bydd y rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Buchol (Cyfyngu ar eu Rhoi ar y Farchnad) (Cymru) (Rhif 2) 2005.

Pan benderfynodd y Llywodraeth ddisodli'r rheol dros drideg mis (OTM) (a oedd yn gwahardd pawb rhag gwerthu cig i'w fwyta o wartheg a oedd dros drideg mis oed ar adeg eu lladd) gyda phrofion BSE ar wartheg OTM, penderfynwyd hefyd y dylid cadw'r gwaharddiad yn barhaol ar wartheg a aned neu a fagwyd yn y DU cyn 1 Awst 1996. Nid oedd hyn yn gyson â chyfraith berthnasol yr Undeb Ewropeaidd, felly gofynnodd y DU am weithredu ar lefel UE er mwyn cyfreithloni gwaharddiad parhaol. Canlyniad hyn oedd i'r UE fabwysiadu Penderfyniad Comisiwn 2005/598/EC. Mae Rheoliadau Cynhyrchion Buchol (Cyfyngu ar eu Rhoi ar y Farchnad) (Cymru) (Rhif 2) 2005 yn gwneud y gwaharddiad/penderfyniad hwnnw'n gyfreithlon.

Fodd bynnag, mae penderfyniad 2005/598/EC wedi cael ei ddiddymu bellach a'i ddisodli ers 14 Mehefin 2007 gan Benderfyniad 2007/411/EC. Mae Penderfyniad 2007/411/EC yn cynnwys rhanddirymiad o'r gwaharddiad i ganiatáu defnyddio crwyn gwartheg o'r DU, a aned cyn 1 Awst 1996, ar gyfer cynhyrchion lledr.

Mae diddymu a disodli Penderfyniad Comisiwn 2005/598/EC wedi golygu bod angen diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Buchol (Cyfyngu ar eu Rhoi ar y Farchnad) (Cymru) (Rhif 2) 2005. Gan fod y Penderfyniad Comisiwn wedi dod i rym ar y dyddiad y cafodd ei hysbysu i awdurdodau'r DU (h.y. ar 14 Mehefin 2007) mae angen i'r Rheoliadau diwygiedig

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
Ffôn * Tel 02920 82 5111
Ffacs * Fax 029 2089 8475
Correspondence.Jane.Hutt@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

ddod i rym yn syth er mwyn sicrhau bod y gwaharddiad yn parhau ar wartheg a aned neu a fagwyd yn y DU cyn 1 Awst 1996, fel y bwriadwyd gan Benderfyniad y Comisiwn. Pe na bai Cymru, ynghyd â gweddill y DU, yn gweithredu'r Penderfyniad hwn byddai'n torri gofyniad y Gymuned. Yn ogystal â hyn, gallai'r perygl o beidio gweithredu'r ddeddfwriaeth hon yn syth yng Nghymru alluogi gwartheg a aned cyn 1 Awst 1996 i fynd mewn i'r gadwyn fwyd o bosibl, gan leihau'r mesurau iechyd cyhoeddus mewn cysylltiad â BSE.

Daeth Rheoliadau tebyg i rym yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar 21 Mehefin 2007 a'r bwriad yw cyflwyno rhai yn yr Alban ar 27 Mehefin 2007. Felly, er mwyn sicrhau gorfodaeth gyson ledled y DU, mae angen torri'r rheol 21 diwrnod fel bod y Rheoliadau'n dod i rym ar 27 Mehefin 2007.

Nid yw'r Rheoliadau hyn wedi cael Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan na fyddant yn cael unrhyw effaith ar fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddol. Fodd bynnag, mae yna Femorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi ac mae hwn wedi ei osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Jane